UK Government

# Ymgynghoriad ar wahardd therapi trosi 2021-2022

# Dadansoddiad o brofiadau o arferion trosi gan ymatebwyr unigol

Mehefin 2026

Y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle

**Ymwadiad:** *Comisiynwyd a chwblhawyd yr adroddiad hwn o dan y weinyddiaeth flaenorol ond ni chafodd ei gyhoeddi. Fe'i cyhoeddir nawr o dan ymrwymiad y llywodraeth bresennol i fod yn agored a thryloyw. O ystyried y cefndir hwn, nid yw cynnwys nac iaith y ddogfen hon yn adlewyrchu polisi cyfredol y llywodraeth. Er bod y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, nid yw'n gwarantu cywirdeb, cyflawnrwydd na defnyddioldeb y wybodaeth honno.*

UK Government

# Cynnwys


Cynnwys 2

Crynodeb gweithredol 3

1. Cyflwyniad 6

2. Dull / dehongli'r canfyddiadau 7

2.1 Dull 7

2.2 Diffiniadau allweddol 8

2.3 Cyfyngiadau 9

3. Canlyniadau 10

3.1 Cyfran gyffredinol yr ymatebwyr a gafodd gynnig, ac a dderbyniodd, arferion trosi 11

3.2 Dadansoddiad demograffig o ymatebwyr a brofodd arferion trosi 11

3.3 Profiad diweddaraf yr ymatebwyr o arferion trosi 15

4. Casgliad 18

Cyfeiriadau 20

Atodiad A. Cwestiynau ac ymatebion ymgynghori ynghylch profiadau ymatebwyr o arferion trosi 21

**Cwestiynau am brofiadau ymatebwyr o therapi trosi** 21

Atodiad B. Tablau data'r ymgynghoriad 24

Atodiad C. Tablau data Arolwg Cenedlaethol LHDT 2017 29

# Crynodeb gweithredol

**Cyflwyniad**

Ymgynghorodd y llywodraeth flaenorol ar sut i wahardd arferion trosi rhwng 29 Hydref 2021 a 4 Chwefror 2022. Casglodd yr ymgynghoriad farn pobl ar agweddau ar y polisi arfaethedig ar y pryd a fyddai'n berthnasol i Gymru a Lloegr, ynghyd â'u data demograffig, a gwybodaeth am unrhyw brofiad o'r arferion hyn a allai fod ganddynt. At ei gilydd, adroddodd 820 o unigolion ar eu profiadau personol o arferion trosi fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae dadansoddiad o'r data hwn yn ategu gwybodaeth a thystiolaeth bresennol ynghylch pwy sy'n teimlo eu bod wedi profi arferion trosi a beth yw eu profiadau.

**Prif ganfyddiadau**

**Dim ond profiadau a adroddwyd gan y rhai a ddewisodd ymateb i'r ymgynghoriad y mae'r dadansoddiad hwn yn eu hadlewyrchu ac nid yw'n gynrychiadol o unrhyw boblogaeth ehangach.**

Dywedodd 7% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod wedi cael cynnig arferion trosi, gyda 3% yn dweud eu bod wedi'u cael. Mae'r cyfrannau hyn yn debyg i'r rhai o'r Arolwg LHDT Cenedlaethol 2017, lle dywedodd 5% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cynnig arferion trosi a dywedodd 2% eu bod wedi eu cael.

*Proffil demograffig yr ymatebwyr yn profi arferion trosi*

Roedd ychydig dros hanner (51%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn hoyw neu'n lesbiaidd (o'r rhain roedd 67% yn ddynion a 28% yn fenywod, ni nododd y gweddill eu rhyw).

Roedd ychydig o dan dri chwarter (73%) yn annhrawsryweddol, roedd 24% yn drawsryweddol.

Roedd ychydig dros hanner (54%) yn ddynion, roedd ychydig dros draean (35%) yn fenywod, ni nododd y gweddill eu rhyw.

Roedd bron hanner (47%) yn Gristnogion, ac roedd ychydig dros draean (36%) 'heb grefydd'.

UK Government

*Profiad diweddaraf yr ymatebwyr o arferion trosi*

Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi bod person o sefydliad neu grŵp ffydd wedi bod yn rhan o'i gyflawni.

Yn yr un modd, gweithgareddau ysbrydol, crefyddol, neu ffydd honedig oedd y math mwyaf cyffredin o arferion trosi a adroddwyd yn yr ymgynghoriad (gan 65% o'r ymatebwyr), ac wedyn 'therapïau seicoddadansoddol' honedig (33%) a 'therapi gwybyddol-ymddygiadol' honedig (30%). Defnyddir cyfeiriadau at therapïau seicoddadansoddol a gwybyddol-ymddygiadol yn y cyd-destun hwn i ddangos sut y gallai'r arfer fod wedi'i ddisgrifio gan y person a'i cynhaliodd, neu sut y gallai'r dioddefwr fod wedi'i ddeall.[1]

Dywedodd y mwyafrif (83%) o’r ymatebwyr eu bod wedi cael eu profiad diweddaraf pan oeddent rhwng 11 a 34 oed (dywedodd 13% eu bod yn hŷn na hyn pan ddigwyddodd, a 4% eu bod yn iau).

Profodd tua dau o bob pump o ymatebwyr (39%) arferion trosi rhwng 2000 a Chwefror 2022.[2] Cafodd cyfran debyg (40%) eu profiad diweddaraf rhwng 1980 a 1999, 17% rhwng 1960 a 1979, a'r 3% oedd yn weddill rhwng 1940 a 1959.

Dywedodd ychydig o dan dri chwarter (74%) o'r ymatebwyr mai yn Lloegr y cynhaliwyd eu profiad diweddaraf o arferion trosi, ac yna 'y tu allan i'r DU' (17%), Yr Alban (6%), Gogledd Iwerddon (4%), a Chymru (3%).

Dywedodd dros ddwy ran o dair (68%) eu bod yn teimlo mai newid eu cyfeiriadedd rhywiol yn unig oedd nod eu profiad o arferion trosi. Dywedodd 13% eu bod yn teimlo ei fod wedi'i anelu at newid a oeddent yn drawsryweddol ai peidio, a dywedodd 12% eu bod yn teimlo ei fod wedi'i anelu at newid y naill a'r llall.

**Casgliad**

---

[1] Er mwyn osgoi cymysgu therapïau seicoddadansoddol neu wybyddol-ymddygiadol cyfreithlon ag arferion trosi, neu ddifrïo ymarferwyr cyfreithlon y gwasanaethau iechyd meddwl pwysig hyn, defnyddir y gair 'honedig' yma ac mewn cyd-destunau cyfatebol drwy gydol y ddogfen hon.

[2] Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2022. Hwn yw'r dyddiad diweddaraf y gallai ymatebwyr fod wedi nodi eu bod wedi profi arferion trosi.

Roedd ymatebwyr a oedd wedi profi arferion trosi yn fwy tebygol na pheidio o fod yn:

- hoyw neu lesbiaidd (yn hytrach nag unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall)
- anhrawsryweddol
- gwryw
- byw yn Lloegr (yn hytrach na rhan arall o'r DU neu'r tu allan iddi)
- rhan o grŵp ethnig gwyn
- Cristion (yn hytrach na ffydd arall neu 'ddigrefydd")

Roedd 'profiad diweddaraf' yr ymatebwyr hyn yn fwy tebygol na pheidio o fod:

- wedi'i gynnal gan sefydliad neu grŵp ffydd, ac wedi cynnwys gweithgareddau ysbrydol, crefyddol neu seiliedig ar ffydd
- wedi digwydd yn Lloegr
- wedi digwydd pan oeddent rhwng 11 a 34 oed (gyda phumed ran yn 15 oed neu'n iau)
- wedi digwydd ar ôl 1980
- wedi'i anelu at newid eu cyfeiriadedd rhywiol

# 1. Cyflwyniad

Lansiwyd ymgynghoriad ar gynigion y llywodraeth flaenorol i wahardd arferion trosi ar 29 Hydref 2021 ac roedd ar agor am 14 wythnos. Ceisiodd gasglu barn ar agweddau ar y polisi arfaethedig gan gynnwys:

- targedu gweithredoedd troseddol corfforol presennol a gynhelir at ddibenion arferion trosi gyda'r potensial ar gyfer cynyddu dedfrydau
- cyflwyno trosedd newydd
- pecyn o fesurau sifil pellach, megis Gorchmynion Diogelu Arferion Trosi, cymorth newydd i ddioddefwyr, cyfyngu ar hyrwyddiad, dileu ffrydiau elw, a chryfhau'r achos dros anghymhwyso rhag dal rôl uwch mewn elusen.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, a oedd ar agor i bawb dros 16 oed, gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau demograffig i bob unigolyn a chwestiynau am unrhyw brofiadau personol y gallent fod wedi'u cael o arferion trosi. Gofynnodd yr ymgynghoriad am brofiadau yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol a/neu statws trawsryweddol.

Mae'r adroddiad hwn yn ategu'r prif ddadansoddiad o'r ymgynghoriad, ond mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddata o'r is-sampl o ymatebwyr unigol a nododd eu bod wedi profi arferion trosi.[3] Mae'n adeiladu ar ein gwybodaeth a'n tystiolaeth bresennol ynghylch pwy sy'n profi arferion trosi a beth yw eu profiadau.

Yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol, disgrifiodd y llywodraeth flaenorol 'therapi trosi' yn "ymgais i newid cyfeiriadedd rhywiol person neu i'w newid i fod yn drawsryweddol neu oddi wrth fod yn drawsryweddol". Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad, mae'r derminoleg wedi newid o 'therapi trosi' i 'arferion trosi' er mwyn osgoi cymysgu â therapïau cyfreithlon ac i adlewyrchu'n well y ffaith fod gweithredoedd trosi yn digwydd ar amrywiaeth o wahanol ffurfiau. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r newid iaith hwn, oni bai bod angen cyfeirio'n benodol at 'therapi trosi', er enghraifft, yn ymwneud ag union eiriad cwestiynau yn yr ymgynghoriad.

---

[3] Mae adroddiad annibynnol sy'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd ar gael. [dolen]

# 2. Dull / dehongli'r canfyddiadau

## 2.1 Dull

Gofynnodd yr ymgynghoriad amrywiaeth o gwestiynau demograffig i bob ymatebydd unigol. Gofynnodd hefyd a oeddent erioed wedi cael cynnig neu wedi profi arferion trosi. Yna gofynnwyd cwestiynau caeedig i'r rhai a ddywedodd 'ydw' am eu profiad **diweddaraf**. Rhoddodd y cwestiynau dilynol hyn ar brofiadau restr sefydlog o opsiynau ymateb penodol i ymatebwyr, y cytunwyd arnynt adeg yr ymgynghoriad, ac fe'u llywiwyd gan y wybodaeth a'r dystiolaeth a oedd ar gael (gweler Atodiad A am ragor o fanylion). Roedd y cwestiynau'n cynnwys:

- ‘Pwy gynhaliodd y therapi trosi hwn?’
- ‘A allwch ddweud wrthym yn fras beth oedd eich oedran pan gynhaliwyd y therapi trosi hwn?’
- ‘Ble cynhaliwyd y therapi trosi hwn?’
- ‘A oedd y therapi trosi hwn wedi'i anelu at newid eich cyfeiriadedd rhywiol neu a oeddech chi'n drawsryweddol ai peidio, neu'r naill a'r llall?’
- ‘Pa ffurf a gymerodd y therapi trosi hwn?’

At ei gilydd, nododd 820 o ymatebwyr unigol i'r ymgynghoriad eu bod wedi profi arferion trosi. Roedd 10 o ymatebwyr a atebodd 'Nac ydw', ‘Efallai/ddim yn gwybod', neu 'Gwell gennyf beidio â dweud' pan ofynnwyd iddynt a oeddent erioed wedi profi arferion trosi, ond fe roesant atebion i un neu fwy o gwestiynau am eu profiad o arferion trosi. Mae'r ymatebwyr hyn wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn, o ystyried bod rhywfaint o ansicrwydd i'w weld ynghylch eu profiadau o arferion trosi.

Cyflwynir dadansoddiad disgrifiadol o'r sampl o ymatebwyr unigol a nododd eu bod wedi profi arferion trosi yn yr adroddiad hwn. Mabwysiadwyd dull croesdablu ar gyfer y dadansoddiad, ac eithrio'r dadansoddiad sy'n archwilio ym mha ddegawd y digwyddodd profiad mwyaf diweddar yr ymatebwyr. Disgrifir y dull ar gyfer hyn yn fanylach yn Adran 3.3. Cyflwynir yr holl dablau data perthnasol yn yr Atodiadau. Mae Atodiad B yn cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad. Mae Atodiad C yn cynnwys canlyniadau Arolwg LHDT Cenedlaethol 2017. Efallai na fydd rhai cyfansymiau'n gwneud 100% oherwydd talgrynnu.

## 2.2 Diffiniadau allweddol

Gofynnodd yr ymgynghoriad am unrhyw brofiadau personol o 'therapi' trosi yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol a/neu statws trawsryweddol. Disgrifir y dull o ddatblygu'r categorïau dadansoddol isod:

### Cyfeiriadedd rhywiol

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu cyfeiriadedd rhywiol, gan ddefnyddio'r un dull ag yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr. Rhoddodd hyn opsiynau caeedig i'r ymatebwyr (syth/heterorywiol, hoyw neu lesbiaidd, deurywiol, cyfeiriadedd rhywiol arall, gwell gennyf beidio â dweud) neu'r cyfle i nodi sut maent yn cyfeirio at eu cyfeiriadedd rhywiol mewn maes testun rhydd. Ar gyfer y dadansoddiad meintiol, ail-godiwyd yr holl ymatebion testun rhydd ar gyfer y cwestiwn hwn fel 'Cyfeiriadedd rhywiol arall'.

### Hunaniaeth rhywedd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hunaniaeth rhywedd gan ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o'r safon data wedi'i chysoni ar gyfer hunaniaeth rhywedd, sydd ar hyn o bryd 'dan ddatblygiad' gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS). Gofynnodd y cwestiwn hwn i'r ymatebwyr a oedd y rhywedd yr oeddent yn uniaethu ag ef yr un fath â'r rhywedd a gofrestrwyd adeg eu geni. Os dewisasant ‘Nac ydy’, gallent wedyn nodi eu hunaniaeth rhywedd mewn maes testun rhydd. Cafodd yr ymatebion testun rhydd hyn eu hail-godio i ddau gategori: 'Trawsryweddol' a 'Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni ond ni roddwyd hunaniaeth benodol'.

Mae'r categori Trawsryweddol yn cynnwys ymatebwyr a nododd mai eu hunaniaeth rhywedd, er enghraifft, oedd Dyn Traws, Menyw Draws, neu anneuaidd (gan gynnwys hunaniaethau eraill a nodwyd fel 'Rhyweddhylifol').

Ni wnaeth nifer fach o ymatebwyr a atebodd 'Nac ydy' pan ofynnwyd iddynt a oedd y rhywedd yr oeddent yn uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni, ddarparu hunaniaeth rhywedd benodol. Oherwydd bod mwy o ansicrwydd ynghylch sut i gategoreiddio hunaniaeth rhywedd yr ymatebwyr hyn, ac at ddibenion y dadansoddiad hwn, ail-godiwyd yr ymatebion hyn fel 'Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni ond ni roddwyd hunaniaeth benodol' a chawsant eu heithrio o'r dadansoddiad

meintiol ar hunaniaeth rhywedd. Mae'n bwysig nodi bod y categorïau dadansoddol hyn ar gyfer hunaniaeth rhywedd wedi'u datblygu cyn rhyddhau a dadansoddi data hunaniaeth rhywedd a nodwyd yn bersonol o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr ym mis Ionawr 2023, ac maent yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y Cyfrifiad. Canfu adolygiad o ddata hunaniaeth rhywedd y cyfrifiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, fod problemau ansawdd gyda'r cwestiwn a'r data. Ar hyn o bryd mae'r GSS yn datblygu safonau data newydd wedi'u cysoni ar gyfer hunaniaeth rhywedd.

## 2.3 Cyfyngiadau

Mae nifer o gyfyngiadau'n gysylltiedig â'r data o'r ymgynghoriad ac Arolwg Cenedlaethol LHDT 2017. Mae rhai o'r rhain yr un peth ar gyfer y ddwy set ddata (er enghraifft, maent yn samplau hunan-ddethol), mae eraill yn benodol i bob un. Mae'r cyfyngiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r setiau data yn cynnwys y canlynol:

**Ymgynghoriad**

Er bod yr ymgynghoriad ar agor i bawb dros 16 oed, dim ond profiadau'r rhai a ddewisodd ymateb y mae'r set ddata yn eu hadlewyrchu. Felly mae'n sampl hunanddewisol, a gasglwyd mewn gwahanol gyfnodau amser, nad yw'n gynrychioliadol o unrhyw boblogaeth ehangach.

Mae'r ymgynghoriad yn seiliedig ar brofiadau wedi'u hunan-adrodd yr ymatebwyr o therapi trosi. Diffiniodd yr ymgynghoriad 'therapi trosi' fel "ymgais i newid cyfeiriadedd rhywiol person neu i'w newid i fod yn drawsryweddol neu oddi wrth fod yn drawsryweddol" a allai fod wedi arwain at ddehongliad llawer ehangach gan ymatebwyr o'r diffiniad o arferion trosi nag a ddiffiniwyd wedi hynny ym Mil Arferion Trosi drafft y llywodraeth flaenorol. Mae gofyn i ymatebwyr am eu profiadau o ymarfer trosi yn bersonol ac yn sensitif. Gan mai ymarfer ymgynghori untro oedd hwn, nid oedd yn ymarferol gwirio natur y profiadau a adroddai'r ymatebwyr.

Ymatebodd pobl i gwestiynau ymgynghori ar y sail eu bod wedi profi 'therapi trosi' yn hytrach nag 'arferion trosi'. Gallai'r newid mewn iaith fod wedi effeithio ar sut ymatebodd pobl i gwestiynau am eu profiadau.

Mae dadansoddiad yn ôl oedran yr ymatebwyr neu yn ôl yr oedran y profodd yr ymatebwyr arferion trosi yn gyfyngedig, gan mai dim ond data ar yr ystod oedran a gasglwyd drwy'r

ymgynghoriad. Mae hyn yn effeithio ar y math o ddadansoddiad sy'n gysylltiedig ag oedran y gellir ei wneud.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr a oedd wedi profi arferion trosi ddarparu manylion eu profiad **diweddaraf**, yn hytrach nag unrhyw brofiadau eraill, neu'r holl brofiadau. Oherwydd hyn, mae'r dadansoddiad cyfnodau amser sy'n amcangyfrif pryd y digwyddodd profiadau diweddaraf yr ymatebwyr o arferion trosi yn adlewyrchu'r cyfnodau amser diweddaraf. Felly nid yw'n dal yn llawn holl faint yr arferion trosi a brofir gan y boblogaeth.

**Arolwg Cenedlaethol LHDT 2017**

Mae Arolwg Cenedlaethol LHDT 2017 yn seiliedig ar sampl hunan-ddethol o 108,000 o ymatebwyr 16 oed neu hŷn, nad yw o bosibl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach.

Mae'r arolwg yn seiliedig ar brofiadau a nodwyd gan yr ymatebwyr eu hunain o therapi trosi. Yn debyg i'r ymgynghoriad, nid oedd yr arolwg yn cynnwys diffiniad clir o therapi trosi, sy'n golygu ei bod hi'n bosibl y gallai ymatebwyr fod wedi ystyried gweithredoedd megis anghytuno a thrafodaeth yn therapi trosi.

Ni wnaeth yr arolwg wahaniaethu rhwng ymatebwyr a nododd eu bod wedi profi therapi trosi a anelai at newid cyfeiriadedd rhywiol, y rhai y'u hanelwyd at newid eu hunaniaeth drawsryweddol, a'r rhai a anelwyd at newid y naill a'r llall. Ni chasglodd unrhyw ddata gan ymatebwyr ychwaith ynghylch pryd na ble y digwyddodd y therapi trosi a brofwyd ganddynt.

# 3. Canlyniadau

Cyflwynir isod y canlyniadau o'r cwestiynau ar brofiadau'r ymatebwyr o arferion trosi. Roedd rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad wedi cael eu gofyn yn flaenorol yn Arolwg LHDT Cenedlaethol 2017, a gasglodd wybodaeth am brofiadau pobl LHDT yn y DU, gan gynnwys arferion trosi. Ymatebodd dros 108,000 o bobl LHDT, ac er bod yr arolwg yn sampl hunanddethol, mae'n darparu'r dystiolaeth orau am gyffredinolrwydd arferion trosi yn y DU (GEO, 2021). Cyfeirir at ganfyddiadau'r arolwg hwn, gan gynnwys data nad yw wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn, wedi hynny fel yr 'arolwg'. Pan fo'n bosibl, cyflwynir y canfyddiadau o'r ddwy ffynhonnell - ymgynghoriad y llywodraeth flaenorol a'r arolwg - i'w cymharu. Mewn rhai achosion nid ydynt yn uniongyrchol gymaradwy

oherwydd y ffordd y dadansoddwyd canlyniadau'r arolwg, gwahaniaethau yng ngeiriad y cwestiynau, a'r data oedd ar gael adeg ysgrifennu.

## 3.1 Cyfran gyffredinol yr ymatebwyr a gafodd gynnig, ac a dderbyniodd, arferion trosi

Cynigiwyd a derbyniwyd arferion trosi gan gyfrannau tebyg o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r arolwg.

**Ymgynghoriad**:
Dywedodd 7% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod wedi cael cynnig arferion trosi gyda 3% yn dweud eu bod wedi'u cael (Atodiad B, Tablau B.1 a B.2).

**Arolwg**:
Dywedodd 5% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cynnig arferion trosi a dywedodd 2% eu bod wedi'u cael (Atodiad C, Tabl C.1).

## 3.2 Dadansoddiad demograffig o ymatebwyr a brofodd arferion trosi

Mae'r dadansoddiad canlynol yn disgrifio nodweddion a phrofiadau'r 820 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a thua 2,500 o ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi.

### Beth oedd cyfeiriadedd rhywiol yr ymatebwyr?

Roedd mwy o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn hoyw neu'n lesbiaidd o'i gymharu â grwpiau cyfeiriadedd rhywiol eraill.

**Ymgynghoriad**: Roedd ychydig dros hanner (51%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn hoyw neu'n lesbiaidd (o'r rhain, roedd 67% yn wryw a 28% yn fenyw, ni nododd y gweddill eu rhyw), roedd 19% yn heterorywiol, roedd 15% yn ddeurywiol, ac roedd gan 10% 'gyfeiriadedd rhywiol arall' (Atodiad B, Tabl B.3).

**Arolwg**: Roedd tua thri o bob pump (62%) o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi profi arferion trosi yn hoyw neu'n lesbiaidd, roedd 21% yn ddeurywiol, roedd 10% yn 'gyfeiriadedd rhywiol arall', a 3% yn heterorywiol (Atodiad C, Tabl C.2).

## Beth oedd rhyw'r ymatebwyr?

Roedd mwy o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn wrywiaid o'u cymharu â benywod.

**Ymgynghoriad**: Roedd ychydig dros hanner (54%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn wrywod, roedd 35% yn fenywod gyda'r 11% sy'n weddill yn ymateb 'Gwell gennyf beidio â dweud' (Atodiad B, Tabl B.5).

**Arolwg**: Nid oes data cymharol ar gael o'r arolwg ar ryw'r *holl* ymatebwyr a oedd wedi profi arferion trosi oherwydd y cwestiynau a ofynnwyd.[4] Ar gyfer ymatebwyr annhrawsryweddol, dywedodd 60% eu bod yn ddynion, a dywedodd 40% eu bod yn fenywod (Atodiad C, Tabl C.3).[5] Nid oes unrhyw ddata ar gael ar y rhyw a gofrestrwyd adeg geni yn achos ymatebwyr trawsryweddol.

## Beth oedd hunaniaeth rhywedd yr ymatebwyr?

Roedd cyfrannau tebyg o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r arolwg a oedd wedi profi arferion trosi yn rhai nad oeddent yn annhrawsryweddol. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu'r data o'r ymgynghoriad a'r arolwg yn syth gan eu bod yn gofyn am hunaniaeth rhywedd yr ymatebwyr mewn gwahanol ffyrdd. Efallai fod y gwahanol gwestiynau wedi effeithio ar sut y dewisodd pobl ymateb ar gyfer pob arolwg. Ar adeg yr Arolwg LHDT Cenedlaethol, nid oedd safon data wedi'i chysoni gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer hunaniaeth rhywedd ar gael.

**Ymgynghoriad**: Roedd ychydig o dan dri chwarter (73%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn annhrawsryweddol, ac roedd 24% yn drawsryweddol (Atodiad B, Tabl B.4). Roedd ychydig dros hanner (54%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn wrywod, a 35% yn fenywod (Atodiad B, Tabl B.5).

**Arolwg**: Dywedodd dros ddau o bob pump (44%) o ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi profi arferion trosi eu bod yn ddynion, tra bod 29% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn fenywod.

---

[4] Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg am eu hunaniaeth rhywedd. I'r rhai a atebodd 'dyn' neu 'fenywod' yn unig, gofynnwyd cwestiwn dilynol am eu rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni.

[5] Defnyddiwyd 'menyw' i gyfeirio at bawb a nododd eu bod yn fenywod a merched, pan nodasant eu bod wedi'u cofrestru'n fenywod adeg eu geni. Defnyddiwyd 'dyn' i gyfeirio at bob dyn a bachgen a nododd eu bod yn ddynion a bechgyn, pan nodasant eu bod wedi'u cofrestru'n wrywod adeg eu geni.

Dywedodd 7% eu bod yn 'fenyw draws', a dywedodd 5% eu bod yn 'ddyn traws' a dywedodd 11% eu bod yn anneuaidd. Roedd 4% arall yn ymatebion gan bobl na ellid eu dosbarthu yn annhrawsryweddol nac yn drawsryweddol (er enghraifft, y rhai na roddodd fanylion am eu hunaniaeth rhywedd neu a ddewisodd 'Gwell gennyf beidio â dweud'). (Atodiad C, Tabl C.4).

## Ble roedd yr ymatebwyr yn byw?

Roedd dosbarthiad daearyddol, yn ôl gwlad, yr ymatebwyr a oedd wedi profi arferion trosi yn debyg ar gyfer yr ymgynghoriad a'r arolwg. Mae'r ymatebion hyn hefyd yn adlewyrchu proffil cenedlaethol poblogaeth y DU.

**Ymgynghoriad**: Roedd y mwyafrif (83%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn byw yn Lloegr, 7% yn byw yn yr Alban, 4% yn byw yng Nghymru a 3% yn byw yng Ngogledd Iwerddon. Roedd y gweddill 4% yn byw 'Y tu allan i'r DU' (Atodiad B, Tabl B.6).

**Arolwg**: Roedd canlyniadau'r arolwg yn debyg i'r ymgynghoriad gyda'r mwyafrif (84%) o ymatebwyr yr ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn byw yn Lloegr, 7% yn byw yn yr Alban, 5% yn byw yng Nghymru a 2% yn byw yng Ngogledd Iwerddon. (Atodiad C, Tabl C.5).

## Faint oedd oed yr ymatebwyr?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi rhwng 25 a 64 oed adeg llenwi'r arolwg. Ar gyfer yr ymgynghoriad, gofynnwyd am gategorïau oedran mwy penodol.

**Ymgynghoriad:** Roedd tua thri o bob pump o'r ymatebwyr a oedd wedi profi arferion trosi o bob un o'r ystodau oedran canlynol: 25 i 34 oed (22%), 35 i 44 oed (23%), a 45 i 54 oed (20%). Roedd cyfrannau llai o grwpiau oedran hŷn: 55 i 64 oed (15%), 65 i 74 oed (8%), a 75 oed neu hŷn (2%). Roedd 9% o'r ymatebwyr yn iau na 25 oed: 18 i 24 oed (7%), a rhwng 16 a 17 oed (2%) (Atodiad B, Tabl B.7).

**Arolwg**: Roedd tua 2 o bob 5 o ymatebwyr a oedd wedi profi arferion trosi yn iau na 25 oed: 18 i 24 oed (30%), a rhwng 16 a 17 oed (9%). Roedd tua hanner yr holl ymatebwyr o'r grwpiau oedran canlynol: 25 i 34 oed (21%), 35 i 44 oed (15%), a 45 i 54 oed (14%). Roedd

cyfrannau llai o grwpiau oedran hŷn: 55 i 64 oed (7%), 65 oed neu hŷn (4%). (Atodiad C, Tabl C.6). Mae pobl iau wedi'u gor-gynrychioli yn set ddata Arolwg LHDT Cenedlaethol 2017 o'i gymharu â'r ystadegau poblogaeth cenedlaethol ar y pryd (GEO, 2021).

## I ba grŵp ethnig yr oedd yr ymatebwyr yn perthyn?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r arolwg a oedd wedi profi arferion trosi yn wyn.

**Ymgynghoriad**: Y mwyafrif (85%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn, ac wedyn grwpiau ethnig cymysg neu luosog a'r grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (y ddau 3%), y grŵp Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd, a grŵp ethnig arall (y ddau 2%) (Atodiad B, Tabl B.8).

**Arolwg**: Yn debyg i'r ymgynghoriad, roedd y mwyafrif (82%) o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi profi arferion trosi yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn, ac wedyn grwpiau ethnig cymysg neu luosog (6%), y grŵp Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig (5%), y grŵp du, Prydeinig du, Caribïaidd neu Affricanaidd (4%), a grŵp ethnig arall (3%) (Atodiad C, Tabl C.7).

## I ba ffydd/grŵp crefyddol yr oedd yr ymatebwyr yn perthyn?

Nododd cyfrannau uwch o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r arolwg a oedd wedi profi arferion trosi eu bod yn Gristnogion neu eu bod yn 'ddi-grefydd'.

**Ymgynghoriad**: Roedd bron hanner (47%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi yn Gristnogion, ac roedd ychydig dros draean (36%) yn 'ddigrefydd'. Yr un grŵp ffydd/crefyddol mwyaf cyffredin nesaf oedd Mwslimiaid (3%) (Atodiad B, Tabl B.9).

**Arolwg**: Roedd bron hanner (47%) o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi profi arferion trosi yn 'ddi-grefydd', ac roedd ychydig o dan draean (30%) yn Gristnogion. Y grŵp ffydd/crefyddol sengl mwyaf cyffredin nesaf oedd Mwslimiaid (5%). Roedd yr ymatebwyr hefyd yn Fwdhyddion, Iddewon, a Phaganiaid (2% bob un), a Hindŵiaid, Anffyddwyr, Agnostigiaid, ac Ysbrydegwyr (1% bob un). Roedd nifer fach o ymatebwyr yn Ddyneiddwyr, Sikhiaid, a Wicaniaid (o dan 1%) (Atodiad C, Tabl C.8).[6]

[6] Mae rhai categorïau crefydd/cred yn Arolwg LHDT Cenedlaethol 2017 wedi'u creu o ymatebion i opsiwn testun rhydd 'arall' pan nad oedd crefydd yr ymatebwyr wedi'i rhestru.

## 3.3 Profiad diweddaraf yr ymatebwyr o arferion trosi

Mae'r adran hon yn disgrifio'r profiad diweddaraf o arferion trosi a adroddwyd gan ymatebwyr unigol i'r ymgynghoriad a'r arolwg.

### Pwy a gyflawnodd yr arferion trosi?

Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ymateb i gwestiwn caeedig ynghylch pwy oedd wedi cynnal yr arferion trosi. Canfuwyd mai sefydliadau ffydd oedd y grŵp mwyaf a oedd wedi cynnal arferion trosi yn yr ymgynghoriad a'r arolwg.

**Ymgynghoriad**: Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (68%) o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad fod eu profiad diweddaraf o arferion trosi wedi’i gyflawni gan berson o sefydliad neu grŵp ffydd. Dilynwyd hyn gan 'gwnselydd' (18%), rhiant, gwarcheidwad neu aelod arall o'r teulu (16%), a 'pherson o fy nghymuned' (11%). Nid oedd yr un o'r opsiynau ymateb eraill dros 10% (Atodiad B, Tabl B.10).

**Arolwg**: Dywedodd ychydig dros hanner (51%) o ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi cael arferion trosi a gynhaliwyd gan sefydliadau ffydd. Dilynwyd hyn gan ddarparwyr gofal iechyd neu weithwyr meddygol proffesiynol (19%), rhiant, gwarcheidwad, neu aelod arall o'r teulu (16%), unrhyw unigolyn neu sefydliad arall nad yw wedi'i restru (14%), neu 'berson o fy nghymuned' (9%). Nododd 13% unrhyw unigolyn/sefydliad arall, ac roedd yn well gan 11% beidio â dweud (Atodiad C, Tabl C.9).

Er bod yr ymgynghoriad wedi gofyn yr un cwestiwn â'r arolwg, roedd yn darparu ystod ehangach o weithwyr meddygol proffesiynol yn opsiynau ymateb. O ganlyniad, nid yw'r canrannau uchod yn cymharu'n uniongyrchol.

### Beth oedd oedran yr ymatebwyr pan gawsant brofiad o arferion trosi?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad rhwng 11 a 34 oed pan gawsant eu profiad diweddaraf o arferion trosi. (83%).

**Ymgynghoriad**: Dywedodd ychydig dros draean (34%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod wedi cael eu profiad diweddaraf rhwng 18 a 24 oed, ac yna rhwng 25 a 34 oed (18%), 11 i 15 mlynedd (16%), ac wedyn rhwng 16 a 17 oed (15%). Dywedodd 4% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu profiad diweddaraf pan oeddent o dan 10 oed (Atodiad B, Tabl B.11).

**Arolwg**: Nid oes unrhyw ddata ar gael o'r arolwg ar yr oedran yr oedd yr ymatebwyr wedi profi arferion trosi.

## Pryd y digwyddodd yr arferion trosi?

Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr pa flwyddyn y gwnaethon nhw brofi ymarfer trosi – yn lle hynny gofynnwyd iddyn nhw beth oedd eu hoedran pan gawsant eu profiad diweddaraf o ymarfer trosi, gan ddefnyddio ystodau oedran. Er mwyn amcangyfrif pryd y digwyddodd arferion trosi, amcangyfrifwyd y flwyddyn y dywedodd yr ymatebydd y gallai'r arfer trosi diweddaraf fod wedi digwydd cyn eu categoreiddio i fandiau oedran 20 mlynedd.[7] Mae hyn yn rhoi arwydd cyson bod ymatebwyr yn nodi bod arferion trosi yn digwydd ar hyn o bryd, yn ogystal ag yn y gorffennol.

**Ymgynghoriad**. Profodd tua dau o bob pump o ymatebwyr (39%) arferion trosi rhwng 2000 a Chwefror 2022. Cafodd cyfran uwch (40%) eu profiad diweddaraf rhwng 1980 a 1999, 17% rhwng 1960 a 1979, a'r 3% dros ben rhwng 1940 a 1959 (Atodiad B, Tabl B.12).

**Arolwg**. Nid oes unrhyw ddata ar gael o'r arolwg ynghylch pryd yr oedd ymatebwyr wedi profi arferion trosi.

## Ble y cynhaliwyd yr arferion trosi?

Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ymateb i gwestiwn caeedig ynghylch ble y cynhaliwyd yr arferion trosi. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r arolwg a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi ei fod wedi digwydd yn Lloegr.

**Ymgynghoriad**: Dywedodd ychydig o dan dri chwarter (74%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod eu profiad diweddaraf o arferion trosi wedi' digwydd yn Lloegr, ac yna 'y tu allan i'r DU' (17%), Yr Alban (6%), Gogledd Iwerddon (4%), a Chymru (3%) (Atodiad B, Tabl B.13).

[7] I amcangyfrif pryd y digwyddodd arferion trosi, tynnwyd yr oedran ieuengaf y gallai'r ymatebwyr fod wedi cael eu profiad diweddaraf o'r oedran hynaf y maent nawr. Felly, er enghraifft, os dywedodd ymatebydd eu bod rhwng 45 a 54 oed, a'u bod wedi cael eu profiad diweddaraf rhwng 35 a 44 oed, tynnwyd 35 o 54. Rhoddodd hyn y nifer *uchaf* o flynyddoedd ers y gallent fod wedi cael eu profiad diweddaraf, a dynnwyd wedyn o 2021 (blwyddyn gyntaf yr ymgynghoriad), gan roi'r dyddiad cynharaf y gallai ymatebwyr fod wedi cael eu profiad diweddaraf.

Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i raddau helaeth i ble roedd yr ymatebwyr yn byw: Lloegr (83%), Yr Alban (7%), Cymru (4%) a Gogledd Iwerddon (3%). Yr eithriadau oedd y gyfran uwch o ymatebwyr a oedd yn byw yn Lloegr nag a gafodd ddulliau trosi yno, a'r gyfran is o ymatebwyr a oedd yn byw y tu allan i'r DU (4%) nag a gafodd arferion trosi yno.

O'r ymatebwyr hynny a gafodd arferion trosi y tu allan i'r DU, roedd 70% o Loegr, gyda'r gweddill o weddill y DU, neu'r tu allan i'r DU.

**Arolwg**: Nid oes unrhyw ddata ar gael o'r arolwg ynghylch ble roedd ymatebwyr wedi profi arferion trosi.

## Beth oedd yr arfer trosi yn anelu at ei newid?

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd wedi profi arferion trosi mai newid eu cyfeiriadedd rhywiol oedd unig nod y profiad.

**Ymgynghoriad**: Dywedodd dros ddwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod yn teimlo bod yr arferion trosi wedi'u hanelu at newid eu cyfeiriadedd rhywiol yn unig. Dywedodd 13% eu bod yn teimlo ei fod wedi'i anelu at newid a oeddent yn drawsryweddol ai peidio, a dywedodd 12% eu bod yn teimlo ei fod wedi'i anelu at newid y naill a'r llall (Atodiad B, Tabl B.14).

**Arolwg**: Nid oes unrhyw ddata ar gael o'r arolwg ynghylch a oedd yr arferion trosi a brofwyd gan ymatebwyr wedi'u hanelu at newid cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd neu'r naill a'r llall.

## Pa ffurf a gymerodd yr arferion trosi?

Pan ofynnwyd i ymatebwyr yr ymgynghoriad am ba ffurf a gymerodd eu profiad o arferion trosi, roedd ganddynt yr opsiwn o ddewis o leiaf un categori penodol o restr. Cytunwyd ar y categorïau hyn adeg yr ymgynghoriad, ac fe'u llywiwyd gan y mewnwelediadau a'r dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd. Y ffurfiau mwyaf cyffredin a adroddwyd oedd 'gweithgareddau ysbrydol, crefyddol, neu ffydd honedig', ac wedyn 'therapïau seicoddadansoddol' honedig a 'therapi gwybyddol-ymddygiadol' honedig.

**Ymgynghoriad**: Dywedodd ychydig o dan ddwy ran o dair (65%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod yr arferion trosi wedi cynnwys 'gweithgareddau ysbrydol, crefyddol neu seiliedig ar ffydd'. Bron ddwywaith cymaint â'r 2 opsiwn nesaf a ddewiswyd amlaf: 'therapi seicoddadansoddol' (33%) a 'therapi gwybyddol-ymddygiadol' (30%) (Atodiad B, Tabl B.15).

Roedd arferion trosi ar ffurf 'mentora' i ychydig o dan chwarter yr ymatebwyr (24%), 'gweithgaredd grŵp (megis grwpiau cymorth)' ar gyfer 20% a 'dulliau corfforol (megis ymyrraeth feddygol neu ymosodiad corfforol)' ar gyfer 14%.

Dywedodd 21% fod yr arferion trosi wedi defnyddio dull neu weithgaredd arall. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw fanylion pellach ynghylch pa ffurf oedd hyn.

**Arolwg**: Nid oes unrhyw ddata ar gael o'r arolwg ar y ffurf benodol a gymerodd yr arferion trosi ar gyfer yr ymatebwyr.

# 4. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi disgrifio nodweddion a phrofiadau'r ymatebwyr hynny i ymgynghoriad y llywodraeth flaenorol yn 2021-22 a ddywedodd eu bod wedi cael profiad personol o arferion trosi, ac wedi cymharu hyn â'r arolwg.

Canfuwyd bod yr ymatebwyr hyn yn fwy tebygol na pheidio o fod yn:

- hoyw neu lesbiaidd (yn hytrach nag unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall)
- annhrawsryweddol
- gwryw
- byw yn Lloegr (yn hytrach na rhan arall o'r DU)
- rhan o grŵp ethnig gwyn
- Cristnogion (yn hytrach na chrefydd arall, neu'n 'ddi-grefydd')

Roedd profiad diweddaraf yr ymatebwyr hyn yn fwy tebygol na pheidio o fod:

- wedi'i gynnal gan sefydliad neu grŵp ffydd, ac wedi cynnwys gweithgareddau ysbrydol, crefyddol neu seiliedig ar ffydd
- wedi digwydd yn Lloegr

- wedi digwydd pan oeddent rhwng 11 a 34 oed (gydag 1 o bob 5 yn 15 oed neu'n iau)
- wedi digwydd ar ôl 1980
- wedi'i anelu at newid eu cyfeiriadedd rhywiol

# Cyfeiriadau

Alma Economics (2025) Conversion practices consultation 2021-22: Analysis of responses. Y Swyddfa dros Gydraddoldeb a Chyfle Swyddfa'r Cabinet.

Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2018) 'National LGBT Survey: Research report'. Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth

Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2021) The prevalence of conversion therapy in the U.K. Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth.

# Atodiad A. Cwestiynau ac ymatebion ymgynghori ynghylch profiadau ymatebwyr o arferion trosi

**Nodyn**: Yn wreiddiol, disgrifiodd y ddogfen ymgynghori 'therapi trosi' yn "ymgais i newid cyfeiriadedd rhywiol person neu i'w newid i fod yn drawsryweddol neu oddi wrth fod yn drawsryweddol". Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad yn 2021-2022, mae'r llywodraeth wedi newid ei therminoleg o 'therapi trosi' yn 'arferion trosi' er mwyn osgoi cymysgu â therapïau cyfreithlon ac adlewyrchu'n well y ffaith fod gweithredoedd trosi yn digwydd ar amrywiaeth o wahanol ffurfiau.

Mae'r testun yn yr atodiad hwn yn dyblygu *union* eiriad y cwestiynau yn yr ymgynghoriad, yn hytrach na newidiadau yn y derminoleg.

## Cwestiynau am brofiadau ymatebwyr o therapi trosi

Mae'r adrannau canlynol ar brofiadau ymatebwyr o therapi trosi. Fe'u defnyddir i nodi'r ymatebion hynny gan bobl sydd â phrofiad penodol o therapi trosi ac a yw hynny'n llywio eu hymatebion. Gofynnir y cwestiynau hyn i unigolion yn unig.

Cwestiwn 1. Gellir cyflawni ystod eang o weithredoedd dan enw therapi trosi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth o weithredoedd o drais corfforol - er enghraifft ymosod a threisio - i ymyriadau a therapïau siarad. A ydych erioed wedi cael cynnig therapi trosi?

- Ydw
- Nac ydw
- Efallai / Ddim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud

Cwestiwn 2. A ydych chi erioed wedi cael therapi trosi?

- Ydw
- Nac ydw
- Efallai / Ddim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud

Os ydych wedi cael mwy nag un profiad o therapi trosi, canolbwyntiwch ar eich profiad diweddaraf.

Cwestiwn 3. Pwy gynhaliodd y therapi trosi hwn?

- Person o sefydliad neu grŵp ffydd
- Rhiant, gwarcheidwad neu aelod arall o'r teulu

- Cwnselydd
- Seiciatrydd
- Seicolegydd
- Seicotherapydd
- Person o fy nghymuned
- Gweithiwr meddygol proffesiynol arall
- Unigolyn arall ac eithrio gweithiwr meddygol proffesiynol
- Gwell gennyf beidio â dweud

Cwestiwn 4. A allwch ddweud wrthym yn fras beth oedd eich oedran pan gynhaliwyd y therapi trosi hwn?

- Dan 10 oed
- rhwng 11 a 15 oed
- rhwng 16 a 17 oed
- rhwng 18 a 24 oed
- rhwng 25 a 34 oed
- rhwng 35 a 44 oed
- rhwng 45 a 54 oed
- rhwng 55 a 64 oed
- rhwng 65 a 74 oed
- 75 oed neu hŷn

Cwestiwn 5. Ble cynhaliwyd y therapi trosi hwn?

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Y tu allan i'r DU
- Gwell gennyf beidio â dweud

Cwestiwn 6. A oedd y therapi trosi hwn wedi'i anelu at newid eich cyfeiriadedd rhywiol neu a oeddech chi'n drawsryweddol ai peidio, neu'r naill a'r llall?

- Cyfeiriadedd rhywiol
- Trawsryweddol
- Cyfeiriadedd rhywiol a thrawsryweddol
- Gwell gennyf beidio â dweud

Cwestiwn 7. Pa ffurf oedd ar y therapi trosi hwn?

- Therapi gwybyddol-ymddygiadol (megis nodi sbardunau ymddygiadol)
- Therapïau seicoddadansoddol (megis archwilio trawma teuluol)
- Gweithgaredd grŵp (megis grwpiau cymorth)
- Mentora (megis cyfeillio)

- Therapi teuluol (sy'n cynnwys un neu fwy o aelodau'r teulu)
- Gweithgareddau ysbrydol, crefyddol neu ffydd (megis iacháu gweddi)
- Therapi cosbi (megis therapi sioc drydanol)
- Dulliau corfforol (megis ymyrraeth feddygol neu ymosodiad corfforol)
- Dull neu weithgaredd arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

# Atodiad B. Tablau data'r ymgynghoriad

## Tabl B.1: A ydych erioed wedi cael cynnig therapi trosi?

| | Canran |
|---|---|
| Nac ydw | 81% |
| Ydw | 7% |
| Efallai / ddim yn gwybod | 4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5% |
| Heb ateb | 4% |
| **Pob ymatebydd (Wedi'u talgrynnu)** | **27,930** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol.

## Tabl B.2: A ydych chi erioed wedi cael therapi trosi?

| | Canran |
|---|---|
| Nac ydw | 87% |
| Ydw | 3% |
| Efallai / ddim yn gwybod | 2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4% |
| Heb ateb | 4% |
| **Pob ymatebydd (Wedi'u talgrynnu)** | **27,930** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol

## Tabl B.3: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

| | Canran |
|---|---|
| Syth/ heterorywiol | 19% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 51% |
| Deurywiol | 15% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | 10% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.4: A yw'ch hunaniaeth rhywedd yr un peth â'ch rhyw adeg eich geni? Os nad yw, nodwch eich hunaniaeth rhywedd

| | Canran |
|---|---|
| Annhrawsryweddol | 73% |
| Trawsryweddol | 24% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.5: Beth yw eich rhyw?

| | Canran |
|---|---:|
| Benyw | 35% |
| Gwryw | 54% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 11% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.6: Ble rydych chi'n byw?

| | Canran |
|---|---:|
| Lloegr | 83% |
| Gogledd Iwerddon | 3% |
| Yr Alban | 7% |
| Cymru | 4% |
| Y tu allan i'r DU | 4% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.7: Beth yw eich oedran?

| | Canran |
|---|---:|
| rhwng 16 a 17 oed | 2% |
| rhwng 18 a 24 oed | 7% |
| rhwng 25 a 34 oed | 22% |
| rhwng 35 a 44 oed | 23% |
| rhwng 45 a 54 oed | 20% |
| rhwng 55 a 64 oed | 15% |
| rhwng 65 a 74 oed | 8% |
| 75 oed neu hŷn | 2% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.8: Beth yw eich grŵp ethnig? (Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich grŵp neu gefndir ethnig)

| | Canran |
|---|---:|
| Gwyn | 85% |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 3% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 3% |
| Du, du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 2% |
| Grŵp ethnig arall | 2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.9: Beth yw eich crefydd?

| | **Canran** |
|---|---:|
| Di-grefydd | 36% |
| Cristnogol (gan gynnwys Eglwys Loegr, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall) | 47% |
| Bwdhaidd | <1% |
| Hindŵaidd | <1% |
| Iddewig | 1% |
| Mwslimaidd | 3% |
| Sikh | <1% |
| Unrhyw grefydd arall | 5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.10: Pwy gynhaliodd y therapi trosi hwn? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | **Canran** |
|---|---:|
| Person o sefydliad neu grŵp ffydd | 68% |
| Rhiant, gwarcheidwad neu aelod arall o'r teulu | 16% |
| Person o fy nghymuned | 11% |
| Cwnselydd | 18% |
| Seiciatrydd | 9% |
| Seicolegydd | 8% |
| Seicotherapydd | 7% |
| Gweithiwr meddygol proffesiynol arall | 5% |
| Unigolyn arall ac eithrio gweithiwr meddygol proffesiynol | 6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi
Caniatawyd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb.

## Tabl B.11: A allwch ddweud wrthym yn fras beth oedd eich oedran pan gynhaliwyd y therapi trosi hwn?

| | **Canran** |
|---|---:|
| Dan 10 oed | 4% |
| rhwng 11 a 15 oed | 16% |
| rhwng 16 a 17 oed | 15% |
| rhwng 18 a 24 oed | 34% |

| | |
|---|---|
| rhwng 25 a 34 oed | 18% |
| rhwng 35 a 44 oed | 9% |
| rhwng 45 a 54 oed | 3% |
| rhwng 55 a 64 oed | 1% |
| rhwng 65 a 74 oed | <1% |
| 75 oed neu hŷn | <1% |
| Ar goll | <1% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.12: Pryd oedd profiad diweddaraf yr ymatebwyr o therapi trosi?

| | Canran |
|---|---|
| 2000 i 2021/22* | 39% |
| 1980 i 1999 | 40% |
| 1960 i 1979 | 17% |
| Hyd at 1959 | 3% |
| Ar goll | <1% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi.

* Casglwyd data ar brofiadau o arferion trosi tan i'r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Chwefror 2022.

## Tabl B.13: Ble cynhaliwyd y therapi trosi hwn? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | Canran |
|---|---|
| Lloegr | 74% |
| Gogledd Iwerddon | 4% |
| Yr Alban | 6% |
| Cymru | 3% |
| Y tu allan i'r DU | 17% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.14: A oedd y therapi trosi hwn wedi'i anelu at newid eich cyfeiriadedd rhywiol neu a oeddech chi'n drawsryweddol ai peidio, neu'r ddau?

| | Canran |
|---|---|
| Cyfeiriadedd rhywiol | 68% |
| Trawsryweddol | 13% |
| Cyfeiriadedd rhywiol a thrawsryweddol | 12% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 8% |

| | |
|---|---|
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

## Tabl B.15: Pa ffurf a gymerodd y therapi trosi hwn? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | **Canran** |
|---|---|
| Therapi gwybyddol-ymddygiadol (megis nodi sbardunau ymddygiadol) | 30% |
| Therapïau seicoddadansoddol (megis archwilio trawma teuluol) | 33% |
| Gweithgaredd grŵp (megis grwpiau cymorth) | 20% |
| Mentora (megis cyfeillio) | 24% |
| Therapi teuluol (sy'n cynnwys un neu fwy o aelodau'r teulu) | 12% |
| Gweithgareddau ysbrydol, crefyddol neu ffydd (megis iacháu gweddi) | 65% |
| Therapi cosbi (megis therapi sioc drydanol) | 7% |
| Dulliau corfforol (megis ymyrraeth feddygol neu ymosodiad corfforol) | 14% |
| Dull neu weithgaredd arall | 21% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2% |
| **Pob ymatebydd** | **820** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi therapi trosi

# Atodiad C. Tablau data Arolwg Cenedlaethol LHDT 2017

## Tabl C.1: Ydych chi erioed wedi cael neu wedi cael cynnig therapi trosi?

| | Canran |
|---|---|
| Wedi'i gael | 2% |
| Cynigiwyd i mi | 5% |
| Heb ei gael na'i gynnig i mi | 91% |
| Ddim yn gwybod a oeddwn wedi'i gael neu a oedd wedi'i gynnig i mi | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud / Ddim yn gwybod | <1% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **108,100** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol

## Tabl C.2: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

| | Canran |
|---|---|
| Heterorywiol | 3% |
| Hoyw neu lesbiaidd | 62% |
| Deurywiol | 21% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | 10% |
| Gwell gennyf beidio â dweud / Ddim yn gwybod | 3% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi
Sylwer bod ymatebwyr heterorywiol annhrawsryweddol wedi'u tynnu allan.

## Tabl C.3: Beth oedd eich rhyw adeg eich geni?

| | Canran |
|---|---|
| Menyw | 40% |
| Dyn | 60% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **1,930** |

Ymatebwyr: Pob ymatebydd unigol annhrawsryweddol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi.
Nodyn: Casglwyd data ar ryw yn arolwg 2017. Gofynnwyd y cwestiwn ynghylch 'rhyw a ddynodwyd adeg eu geni' i bob ymatebydd LHDT+ annhrawsryweddol. O ganlyniad, defnyddiwyd 'menyw' i gyfeirio at bob menyw a merch a nododd eu bod wedi'u neilltuo'n fenyw adeg eu geni. Defnyddiwyd 'dyn' i gyfeirio at bob dyn a bachgen y nodwyd ganddynt eu bod wedi'u neilltuo'n wryw adeg eu geni.

## Tabl C.4: Hunaniaeth rhywedd

| | Canran |
|---|---|
| Menyw | 29% |
| Dyn | 44% |
| Menyw draws | 7% |

| | |
|---|---|
| Dyn traws | 5% |
| Anneuaidd | 11% |
| Arall | 2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud / Ddim yn gwybod | 2% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi

Nodyn: Deilliwyd data ar hunaniaeth rhywedd o 2 gwestiwn gan gynnwys: C2. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'ch hunaniaeth rhywedd. Ydych chi'n uniaethu fel menyw/merch, dyn/bachgen, Menyw draws/Merch draws, Dyn traws/Bachgen traws, Anneuaidd/ Rhywedd cwiar/ Aryweddol/ Rhyweddhylifol? C3 a C4. Beth oedd y rhyw a ddynodwyd i chi adeg eich geni?

Defnyddiwyd 'menyw' i gyfeirio at bob menyw a merch a oedd yn nodi eu hunain eu bod felly, lle maent wedi nodi eu bod wedi'u neilltuo'n fenyw adeg eu geni. Defnyddiwyd 'dyn' i gyfeirio at bob dyn a bachgen y nodwyd ganddynt eu bod wedi'u neilltuo'n wryw adeg eu geni. Mae 'menyw' a 'dyn' ill dau yn gategorïau nad ydynt yn drawsryweddol.

## Tabl C.5: Ble rydych chi'n byw?

| Rhanbarth | Canran |
|---|---|
| Lloegr | 84% |
| Gogledd Iwerddon | 2% |
| Yr Alban | 7% |
| Cymru | 5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi

## Tabl C.6: Beth yw eich oedran?

| Ystod Oedran | Canran |
|---|---|
| rhwng 16 a 17 oed | 9% |
| rhwng 18 a 24 oed | 30% |
| rhwng 25 a 34 oed | 21% |
| rhwng 35 a 44 oed | 15% |
| rhwng 45 a 54 oed | 14% |
| rhwng 55 a 64 oed | 7% |
| 65 oed neu hŷn | 4% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi

## Tabl C.7: Beth yw eich grŵp ethnig?

| | Canran |
|---|---|
| Gwyn | 82% |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 6% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 5% |
| Du, du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 4% |

| | |
|---|---|
| Grŵp ethnig arall | 3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi

## Tabl C.8: Beth yw eich crefydd?

| | Canran |
|---|---|
| Digrefydd | 47% |
| Cristnogol (gan gynnwys Eglwys Loegr, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall) | 30% |
| Moslemaidd | 5% |
| Bwdhaidd | 2% |
| Iddewig | 2% |
| Paganaidd | 2% |
| Hindŵaidd | 1% |
| Anffyddiwr | 1% |
| Agnostig | 1% |
| Ysbrydegwr | 1% |
| Dyneiddiwr | <1% |
| Sikh | <1% |
| Wiccan | <1% |
| Arall | 4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi
x = Cell wedi'i hatal oherwydd ei bod yn cynnwys 5 neu lai o ymatebwyr. Ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am un ymateb, mae'r gwerth isaf nesaf hefyd yn cael ei atal i atal datgelu.

## Tabl C.9: Pwy a gynhaliodd y therapi trosi hwn? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | Canran |
|---|---|
| Sefydliad neu grŵp ffydd | 51% |
| Darparwr gofal iechyd neu weithiwr meddygol proffesiynol | 19% |
| Rhiant, gwarcheidwad neu aelod arall o'r teulu | 16% |
| Person o fy nghymuned | 9% |
| Unrhyw unigolyn neu sefydliad arall nad yw wedi'i restru uchod | 14% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 11% |
| **Pob ymatebydd (wedi'u talgrynnu)** | **2,640** |

Ymatebwyr: Pob ymateb unigol a ddywedodd eu bod wedi profi arferion trosi
Ffynhonnell: cyhoeddwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol LHDT: adroddiad ymchwil: Atodiad 5 - Diogelwch. C145,